

ADRODDIAD YMGYNGHOROL

CYNNIG: Cyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre drwy:

1. estyn amrediad oedran Ysgol Gynradd Goetre o 4-11 oed i 3-11 oed; a
2. chau Ysgol Feithrin Gurnos o 1 Medi 2018.

1.0 DIBEN YR ADRODDIAD YMGYNGHOROL

Caiff yr adroddiad hwn ei baratoi yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, dogfen statudol 006/2013. Ei ddiben yw llywio deiliant yr ymgynghoriad a gynhelir rhwng y cyfnod o ddydd Llun 5 Chwefror – ddydd Gwener 11 Mai rhwng yr holl randdeiliaid a phartïon a chanddynt fuddiant a restrir isod.

2.0 Â PHWY WNAETHOM NI YMGYNGHORI?

Cafodd copi o'r ddogfen ymgynghori a wnaeth amlinellu ac esbonio'n cynnig yn llwyr ei anfon at y rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y ddogfen hefyd ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor yma <https://www.merthyr.gov.uk/news-events/latest-news/council-consults-on-plans-to-amalgamate-nursery-and-primary-school/> ac ar-lein drwy hyb Ymgynghoriad Cwm Taf yma www.cwmtafhub.co.uk.

- Rhieni, gofalmwyr, gwarcheidwaid, ac aelodau staff Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre
- Corff Llywodraethu Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre
- Cyrff Llywodraethu eraill o ysgolion cynradd cymdogol
- Aelodau Cynulliad
- Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru
- Aelod Seneddol
- Estyn
- Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cymdogol yn y Fwrdeistref
- Undebau Llafur
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Cyfarwyddwyr Addysg o awdurdodau cymdogol
- Y Coleg, Merthyr Tudful
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol
- Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
- Cabinet Ieuenctid Merthyr Tudful
- Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf
- Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHAG)
- Adran Drafnidiaeth y Cyngor

3.0 Y CYNNIG

Ymgynghorwyd ar y cynnig o gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre drwy estyn amrediad oedran Ysgol Gynradd Goetre o 4-11 oed i 3-11 oed o 1 Medi 2018. Caiff manylion y cais a'r rhesymu y tu ôl iddo eu manylu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu i'r holl randdeiliaid a restrwyd a'i atodi fel Atodiad 1.

4.0 Y BROSES YMGYNGHORI

Derbyniodd bob rhanddeilaid dynodedig ar y rhestr gopi papur neu electronig o'n dogfen ymgynghori. Trefnwyd y cyfarfodydd canlynol hefyd:

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Disgyblion Ysgol Feithrin Gurnos	1.30pm 5 Chwefror 2018	Ysgol Feithrin Gurnos
Rhieni/Gofalwyr disgyblion Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre	2.30pm 5 Chwefror 2018	Ysgol Feithrin Gurnos
Staff Ysgol Feithrin Gurnos	3.30pm 5 Chwefror 2018	Ysgol Feithrin Gurnos
Corff Llywodraethu Ysgol Feithrin Gurnos	4.30pm 5 Chwefror 2018	Ysgol Feithrin Gurnos
Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Goetre	5.30pm 5 Chwefror 2018	Ysgol Gynradd Goetre
Cyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Goetre	2.30pm 6 Chwefror 2018	Ysgol Gynradd Goetre
Staff Ysgol Gynradd Goetre	3.30pm 6 Chwefror 2018	Ysgol Gynradd Goetre
Rhieni/Gofalwyr disgyblion Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre	4.30pm 6 Chwefror 2018	Ysgol Gynradd Goetre

Cafodd nodiadau manwl o'r cyfarfodydd uchod eu cymryd a'u hatodi fel Atodiad 2. Mae'r nodiadau hyn yn manylu ar yr holl gwestiynau a godwyd, sylwadau a datganiadau a wnaed gydag ymatebion yn cael eu darparu ble y bo'n briodol.

5.0 CRYNODEB O YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Mae ymatebion i'r materion a godwyd yn y cyfarfodydd a amlinellwyd uchod, fel y'u dynodwyd, wedi eu crynhoi yn y nodiadau o'r cyfarfodydd a atodir fel Atodiad 2. Hefyd wedi eu hatodi fel Atodiad 3 mae crynodebau o'r holiaduron a dderbyniwyd, saith i gyd ac unrhyw ohebiaeth arall a dderbyniwyd. Mae'r prif faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gyda'n hymateb iddynt, wedi eu cynnwys yn y pwyntiau isod:-

- **Cadw safle ysgol feithrin ar agor**– y bwriad yw parhau i ddefnyddio'r safle yn y dyfodol agos.
- **A fydd gwisg yr ysgol feithrin yn newid** – yn dilyn trafodaeth â'r pennaeth presennol cytunwyd cadw'r wisg gyfredol nes bod y plant wedi tyfu allan ohonynt ac yna gallant brynu gwisg Ysgol Gynradd Goetre.
- **A fydd y ddarpariaeth feithrin yn llawn amser neu'n rhan amser** – penderfyniad i'r Corff Llywodraethu yw hwn.

6.0 SAFBWyNT ESTYN (AROLYGWYR EI MAWRHYDI AR GYFER ADDYSG A HYFFORDDIANT YNG NGHYMRU) AM FUDDION CYFFREDINOL Y CYNNIG

Mae Estyn wedi darparu'r ymateb canlynol i ni am y broses ymgynghori hon:

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Cod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â'r ysgol materion sefydliad. Felly, wrth i gorff gael ei ymgynghori, bydd Estyn yn darparu eu barn yn unig ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi cynhyrchu ymateb i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd ac eraill yn ychwanegol at wybodaeth fel data gan Lywodraeth Cymru a barn Consortiwm y Rhanbarth sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion o fewn y cynnig.

Cyflwyniad

Y cynnig yw cyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre o fis Medi 2018 i greu ysgol gynradd o 3-11 oed wedi ei lleoli ar draws safleoedd presennol Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre.

Crynodeb / Casgliad

Cafodd y cynnig ei ddatblygu yn unol â rhaglen y Cyngor i wella ei ddarpariaeth addysgol, lleihau costau a rhannu arferion da rhwng dwy ysgol bresennol. Safbwynt Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal, o leiaf, safonau cyfredol y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal.

Disgrifiad a Buddion

Mae'r cynigydd wedi darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig. Mae'r cynigydd yn glir yn dangos sut y byddai creu ysgol gynradd 3-11 oed yn galluogi cryfderau cyfredol yn yr ysgolion presennol i gael eu cyfuno i gyflenwi darpariaeth o ansawdd uchel. Ymddengys y byddai'n caniatáu i rannu gweledigaeth ac arweiniad gael ei fewnblannu i greu cwricwlwm cyson a chydlynol ar draws y cyfnod cynradd. Mae'n darparu rhesymeg glir am pam y dylai'r cynnig hwn ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys y ffaith na ddylai'r newidiadau gael unrhyw effaith negyddol ar y plant ar unrhyw gam o'u haddysg. Mae'r cynigydd yn diffinio'n glir fanteision disgwylid y cynnig. Mae'r rhain yn ymddangos yn rhesymol ac yn cynnwys bod gan yr ysgol dîm arwain unigol a chorff llywodraethu, a fydd yn cefnogi'r pennaeth. Ymhlith buddion arfaethedig eraill mae cyfleoedd i staff gyfranogi mewn rhaglen barhaus o ddatblygiad proffesiynol, profiad cwricwlwm cyson i blant ar draws y cyfnod sylfaen a mynediad at fwy o arian a ellir ei fuddsoddi mewn dysgu ac addysgu.


Mae'r cynigydd wedi ystyried anfanteision y cynnig, sy'n cynnwys y posibilrwydd o amharu ar y staff ac adnoddau, gallai'r gostyngiad i un pennaeth effeithio ar arweinyddiaeth, ac mae'n bosibl na fydd plant Meithrin yn teimlo mor hyderus wrth ddyfod yn rhan o ysgol gynradd. Fodd bynnag, y mae wedi darparu tystiolaeth briodol i awgrymu bod y buddion i'r cynnig yn fwy na'r anfanteision. Mae'r cynigydd wedi ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig a sut y byddant yn cael eu rheoli. Mae'r cynigydd wedi ystyried y newidiadau arfaethedig i drefniadau teithio, na fyddent yn wahanol i'r trefniadau cyfredol. Ni fydd unrhyw effaith ar deithiau disgyblion o ganlyniad i'r cynnig. Mae'r cynigydd wedi ymgymryd ag asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg. Nid yw'r cynigydd wedi ymgymryd ag asesiad effaith cydraddoldeb ac mae'n egluro na chaiff hyn ei gyflawni fel rhan o'r asesiad effaith. Mae'r cynnig yn cynnwys trosolwg o'r trefniadau ymgynghori ac yn esbonio'n briodol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol yn unig.

Agweddau addysgol y cynnig

Mae'r cynigydd wedi ystyried yn briodol, effaith y cynnig ar ansawdd y deilliannau, darpariaeth, arweiniad, perfformiad cyfredol a rhagolygon ar gyfer gwella. Y mae wedi crynhoi'r categori cefnogi ar gyfer pob ysgol yn seiliedig ar system categorieiddio ysgolion cenedlaethol, sy'n ystyried safbwynt yr awdurdod lleol. Y mae hefyd yn cyfeirio at adroddiadau adolygiadau mwyaf diweddar Estyn ar gyfer pob ysgol. Mae'r cynigydd yn datgan yn rhesymol y gallai'r cynnig arwain at lawer o fuddion, yn cynnwys athroniaeth addysgol gyson i blant am hyd at naw mlynedd o addysg ddi-dor, mae'r cyflwyniad o strategaethau rheoli ymddygiad cyson ar draws pob oedran a'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i gael ei ddynodi ar oedran cynnar. Mae'r cynigydd hefyd yn dynodi y gallai sefydlu tîm arwain sengl a chorff llywodraethu a symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddu arwain at ddefnydd mwy effeithiol o'r arian. Mae'r cynigydd yn honni y dylai'r cynigion arwain at well safonau addysgu a deilliannau am y byddai athrawon yn gallu rhannu arferion gorau i ddarparu cwricwlwm mwy priodol i'r disgyblion. Mae'r cynnig yn rhoi sylwadau cryno am gyflwr adeiladau'r ysgol a'r cyfleusterau ac yn datgan ymgymryd â rhaglen adolygu adeiladau bum mlynedd o hyd. Mae'r cynigydd wedi amlinellu trefniadau pontio addas ar gyfer cyfuno'r ddwy ysgol ar ddechrau tymor yr hydref.

7.0 CASGLIAD

Yn y cyfarfod ddydd Mercher 16 Mai 2018 cytunodd y Cabinet i gyhoeddi'r cynigion yr ymgynghorwyd â hwy heb unrhyw addasiadau.



YSGOL GYNRADD GURNOS



YSGOL GYNRADD GOETRE



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

DOGFEN YMGYNGHOROL

**Am y cais i gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac
Ysgol Gynradd Goetre drwy:**

3. Estyn ystod oedran Ysgol Gynradd Goetre o 4-11 oed i 3-11 oed; a
4. Chau Ysgol Feithrin Gurnos

Cyflwyniad	3
Esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon	4-5
Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad	5
Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff - sut i ddarganfod rhagor a dweud eich dweud	5-6
Mae eich barn yn cyfri	7
Cefndir y cynnig	7-8
Y Cynnig	8
Map Dalgylch	9
Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd	10
Gwybodaeth am yr ysgolion	10-11
Perfformiad cyfredol	12-15
Yr effaith a fwriedir ar ddeilliannau addysg	16-17
Sut fyddai ysgolion eraill yn cael eu heffeithio?	17
Sut fyddai darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn cael eu heffeithio?	17
Beth yw manteision y cynnig hwn?	18
Beth yw anfanteision y cynnig hwn?	18
Cynllun pontio os yw'r cynigion yn cael eu cymeradwyo	18
Risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig	19
Trefniadau derbyn ac ardal ddalgylch	19
Cyllid	20
Materion adnoddau dynol	20
Materion trafnidiaeth	20
Trefniadau teithio dysgwr	20
Effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg	21
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	21
Ystyriaeth i effaith gymunedol	21
Dyddiadau allweddol	21
Cyfnod ymgynghori	22
Hysbysiad statudol	22
Penderfynu ar y cynigion	22
Hysbysiad am y penderfyniad	22
Cwestiynau cyffredin	22-24
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	25-26
Ffurflen monitro cydraddoldeb	27

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi ddysgu am y cais ad-drefnu ysgolion sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre ac i ddweud wrthyfych sut i roi gwybod i ni beth yw eich safbwyntiau. Dyma eich cyfle i ofyn cwestiynau a darparu sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i fynd rhagddo.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio cynnig y Cyngor i uno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre drwy:

- estyn ystod oedran Ysgol Gynradd Goetre o 4 i 11 i 3 i 11 oed; a
- chau Ysgol Feithrin Gurnos.

Mae ein proses ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a amlinellwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013 ac felly, gofynnir i amrywiaeth o unigolion a grwpiau am eu safbwyntiau am y cynigion hyn.

Cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau sy'n mynegi diddordeb i fynegi eu barn a'u safbwyntiau am y cais.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori gyda'r grwpiau canlynol:

Ysgol Feithrin Gurnos

- Staff (addysgu a chynorthwyol)
- Llywodraethwyr
- Rhieni/ Gofalwyr disgyblion
- Disgyblion

Ysgol Gynradd Goetre

- Staff (addysgu a chynorthwyol)
- Llywodraethwyr
- Rhieni/ Gofalwyr disgyblion
- Disgyblion

Grwpiau Eraill

- Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf
- Aelodau Cynulliad (ACau)
- Aelodau Seneddol (ASau)
- Aelodau Cynulliad Rhanbarthol
- Cynghorwyr Lleol
- Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Comisiynydd y Gymraeg
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)
- Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cymdogol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Undebau Llafur
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Cyfarwyddwyr Addysg – yr holl awdurdodau cymdogol
- Estyn
- Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Lleol
- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Adran Drafnidiaeth y Cyngor
- Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol

Rhif Derbyniadau – rhaid i'r holl ysgolion a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at o leiaf y nifer derbyn a gyhoeddwyd. Y nifer derbyn yw'r nifer o leoedd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

Cyfuno – y broses o gyfuno neu uno nifer o ysgolion yn un ysgol.

Cymeriad Ysgol – proffil cyffredinol yr ysgol. Er enghraifft mae Ysgol Gynradd Goetre yn ysgol gymunedol sy'n derbyn plant rhwng 4 ac 11 mlwydd oed. Mae Ysgol Feithrin Gurnos yn ysgol feithrin gymunedol sy'n derbyn plant yn ystod y tymor yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed. Mae'r plant yn trosglwyddo i ysgol gynradd o ddewis y rhieni y mis Medi sy'n dilyn eu pen blwydd yn bedair oed.

Oedran Ysgol Gorfodol - dechrau'r tymor yn dilyn pen blwydd plentyn yn bum mlwydd oed.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De 'CCD' – Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer y pum awdurdod lleol sef Pen-y-bont, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Y Cyngor – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd CGA – Rhaid i ysgolion beidio â thrin disgyblion yn llai ffafriol na'i gilydd. Rhaid iddynt wneud "addasiadau rhesymol" i sicrhau nad yw disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol, a rhaid iddynt baratoi cynlluniau mynediadwyedd ysgol i ddangos sut y byddant yn cynyddu mynediad at addysg i ddisgyblion anabl dros gyfnod o amser.

Cau ysgol – pan fo'r awdurdod lleol yn argymhell ei fod yn gorffen cynnal yr ysgol.

'AEA' – mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol [AEA] yn broses sydd wedi ei chynllunio i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw bobl o dan anfantais neu sy'n agored i niwed.

'PYDd' – Prydau Ysgol am Ddim.

'ALI' – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw ystyr Awdurdod Lleol.

'CCD' – Cynorthwyydd Cymorth Dysgu

'Nifer ar y gofrestr' – y nifer o ddisgyblion sy'n mynychu ysgol.

'CYBLD' – Cyfrifiad Ysgol Blyneddol Lefel Disgybl. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, caiff gwybodaeth a ddilyswyd ei chasglu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y nifer o ddisgyblion sydd wedi cofrestru ym mhob ysgol, eu grŵp oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd a data ar yr iaith Gymraeg, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig ac iaith gyntaf.

'AAA' – Anghenion Addysgol Arbennig.

Gweithredu gan yr Ysgol (SA) – pan fydd athro dosbarth neu bwnc yn dynodi fod AAA gan ddisgybl, maen nhw'n darparu ymyrraeth sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r hynny a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (SA+) – pan fydd athro dosbarth neu bwnc a Chydlynedd AAA yn derbyn cyngor neu gymorth oddi wrth arbenigwyr allanol, fel y gall ymyrraethau amgen neu ychwanegol neu wahanol i'r rheini a ddarperir i'r disgybl drwy Weithredu Ysgol gael eu gosod yn eu lle.

'LIAD' -Lleoliad Adnoddau Dysgu i blant ag AAA.

Â Datganiad - Bydd gan blentyn Ddatganiad Anghenion Addysgol os oes ganddo ef neu hi anawsterau dysgu ble mae darpariaethau addysgol arbennig yn ofynnol i gael eu gwneud ar ei gyfer ef neu hi. Ystyr anhawster dysgu yw bod gan y plentyn anhawster sylweddol fwy o ran dysgu na'r rhan fwyaf o blant yr un oedran neu fod anabledd gan blentyn sydd ag angen

adnoddau addysgol gwahanol i'r rheini y mae'r ysgol yn gyffredinol yn eu darparu ar gyfer plant.

Hysbysiad Statudol - ystyr Hysbysiad Statudol yw cyhoeddiad ffurfiol o gynnig terfynol, os gaiff ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor, ac fe gaiff ei ystyried cyn gynted ag y maen nhw wedi derbyn yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel y'i hamlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

Darpariaeth ysgol llawn amser - mae polisi'r Cyngor yn caniatáu'r holl blant sydd wedi cael eu pen blwydd yn bedair oed ar neu cyn 31 Awst, fynychu ysgol llawn amser y mis Medi hwnnw. Nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol. Mae rhai rhieni / gofalwyr yn dewis anfon eu plant i'r ysgol pan maen nhw'n cyrraedd

Oedran Ysgol Gorfodol. Bu'r awdurdod lleol yn gweithredu ers tro o'r safbwynt y dylai pob plentyn gael mynediad at addysg feithrin ran amser am ddim o'r tymor sy'n dilyn pen blwydd y plentyn yn dair oed. Yn ymarferol, mae plentyn yn dechrau mynychu ysgol feithrin neu ddosbarth meithrin pan fo'n dair neu bedair blwydd oed, gan ddibynnu ar gyfyngiadau niferoedd mewn dosbarth a galw lleol.

CYNNWYS PLANT YN YR YMGYNGHORIAD

Mae'r Cyngor yn gryf o'r farn y dylai disgyblion o'r ddwy ysgol gael y cyfle i fynegi eu safbwyntiau am y cynnig hwn.

Caiff gweithdy ymgynghorol ei gynnal gan y Cyngor Ysgol yn Ysgol Gynradd Goetre er mwyn casglu safbwyntiau'r plant am y cynnig. Caiff digwyddiad tebyg ei gynnal gyda'r plant hyn oddi fewn i Ysgol Feithrin Gurnos. Bydd y wybodaeth a gesglir yn y sesiynau hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Caiff yr adroddiad llawn ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

CYNNWYS RHINI, LLYWODRAETHWYR A STAFF – sut i ddarganfod rhagor a dweud eich dweud

Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cynnal sesiynau galw heibio ar gyfer yr holl randdeiliaid fel rhan o'r broses.

Gwahoddir rhieni a gofalwyr disgyblion yn yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd i ddod i sesiwn(sesiynau) galw heibio i rieni ble y gallwch ofyn unrhyw gwestiynau am y cynnig. Byddwn bob amser yn gofyn eich bod chi'n cwblhau ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, am mai dim ond safbwyntiau ysgrifenedig gallwn ni eu derbyn.

Caiff dyddiad a lleoliad y sesiwn(sesiynau) galw heibio eu harddangos drwy hysbysfyrdau'r ysgol feithrin a'r ysgol gynradd a gwefannau'r awdurdod lleol.

Rydym ni hefyd wedi trefnu cyfarfodydd i Staff a Chorff Llywodraethu'r ysgolion.

Gellir hefyd dod o hyd i'r ddogfen hon a gwybodaeth gefnogi bellach ar wefan Merthyr Tudful: <https://www.merthyr.gov.uk/resident/?lang=en-GB>

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar y cyfryngau cymdeithasol drwy safle Twitter Cyngor Merthyr Tudful a thrwy dudalen Facebook Cyngor Merthyr Tudful.

Mae manylion dyddiadau cyfarfodydd yr ymgynghoriad isod:

Natur yr Ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Disgyblion Ysgol Feithrin Gurnos	1.30pm 5 Chwefror 2018	Ysgol Feithrin Gurnos
Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre	2.30pm 5 Chwefror 2018	Ysgol Feithrin Gurnos
Staff Ysgol Feithrin Gurnos	3.30pm 5 Chwefror 2018	Ysgol Feithrin Gurnos
Corff Llywodraethu Ysgol Feithrin Gurnos	4.30pm 5 Chwefror 2018	Ysgol Feithrin Gurnos
Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Goetre	5.30pm 5 Chwefror 2018	Ysgol Feithrin Gurnos
Cyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Goetre	2.30pm 6 Chwefror 2018	Ysgol Gynradd Goetre
Staff Ysgol Gynradd Goetre	3.30pm 6 Chwefror 2018	Ysgol Gynradd Goetre
Rhieni/Gofalwyr Disgyblion Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre	4.30pm 6 Chwefror 2018	Ysgol Gynradd Goetre

MAE EICH BARN YN CYFRI

Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o **ddydd Llun 5 Chwefror – dydd Iau 29 Mawrth**.
Gallwch ymateb i'n cynigion ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn.

Mae eich safbwyntiau'n bwysig i ni, a cheir nifer o ffyrdd y gallwch eu mynegi.

Gallwch:

- Gwblhau ffurflen ymateb ar-lein yma : www.cwmtafhub.co.uk
- Bod yn bresennol mewn sesiwn galw heibio a siarad yn bersonol gyda ni. Mae hon yn ffordd dda o gael atebion i unrhyw gwestiynau a allai fod gennych ynghylch y cynigion. Byddwn yn parhau i ofyn i chi gwblhau ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, oherwydd dim ond safbwyntiau ysgrifenedig y gallwn ni eu derbyn.
- Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i rhoi yn un o'r blychau ymateb i'r ymgynghoriad sydd i'w canfod yn ardaloedd derbynfa'r ysgol feithrin a'r ysgol gynradd.

- Cwblhewch a dychwelyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad isod:
 - Prif Swyddog Addysg, Adran Ddysgu, Uned 5, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4QT

Caiff yr holl ymatebion ysgrifenedig a roddir i ni ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad eu hystyried gan Gabinet y Cyngor cyn iddo benderfynu a yw am gyhoeddi hysbysiad statudol am y cynigion.

Ni chaiff ymatebion a dderbyniwyd oddi wrth ymgynghorai sy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn gael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol, er eu bod yn cael eu hystyried yn rhan o adroddiad yr ymgynghoriad. Byddai gwrthwynebiad statudol yn ffurfio rhan o'r cyfnod hysbysu statudol, os yw'n cael ei gymeradwyo yn ystod y cam nesaf, gan Gabinet y Cyngor.

Os ydych chi am wrthwynebu'r hysbysiad yn ystod cam nesaf y broses, pe byddai'n mynd rhagddo, byddai angen i chi wneud hynny yn ysgrifenedig yn ystod y cam gwrthwynebu statudol. Mae'r dyddiadau allweddol hyn yn cael eu hamlinellu yn Amserlen y Broses Statudol ar dudalen 21.

Nodwch fod yr holl sylwadau a anfonwyd yn ysgrifenedig yn gorfod cynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn y person sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 29 Mawrth 2018. Yn anffodus, ni chaiff ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried gan y Cyngor.

CEFNDIR

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor wedi ceisio symud tuag at fodel ysgol gynradd ar gyfer addysg 3-11 oed drwy gyfuno ysgol feithrin, babanod ac iau ar wahân pan oedd cyfle i wneud hynny.

Yn 2011, cafodd Ysgol Babanod Goetre ac Ysgol Iau Goetre eu cyfuno gan greu Ysgol Gynradd Goetre. Ar adeg y cyfuno, penderfynwyd peidio â chynnwys yr ysgol feithrin fel rhan o'r broses hon. Yn sgil profiad ysgolion cynradd eraill sydd â dosbarthiadau meithrin, datblygiad cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a phwysau parhaus ar gyllideb ysgolion, y mae'n addas bellach i ailystyried y penderfyniad hwn.

Ar hyn o bryd Ysgol Feithrin Gurnos yw'r unig ysgol feithrin sy'n sefyll ar ei phen ei hun ym Merthyr Tudful.

Gall plant sy'n byw oddi fewn i'r dalgylch wneud cais am fynediad i Ysgol Feithrin Gurnos y tymor ar ôl eu trydydd pen blwydd. Gall rhieni wneud cais i'w plentyn fynychu Ysgol Gynradd Goetre os yw wedi cael ei ben blwydd yn bedair oed ar neu cyn 31 Awst.

Mae Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre wedi eu lleoli ar safleoedd cyfagos. Mae'r ysgolion wedi eu lleoli mewn ardal 'Cymunedau yn Gyntaf' a 'Dechrau'n Deg', a ddynodwyd o dan gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant yn t cymunedau mwyaf o dan anfantais yng Nghymru. Gellir gweld map o'r dalgylch ar dudalen 9.


Mae'r Cyngor yn cynnig cyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre o 1 Medi 2018 a chreu un ysgol gynradd ar gyfer plant 3-11 oed wedi ei lleoli ar safleoedd presennol Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre.

Yn sgil gofynion cyfreithiol Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, caiff ei gynnig fod y Cyngor yn cau Ysgol Feithrin Gurnos ac yn estyn ystod oedran Ysgol Gynradd Goetre. Byddai cau'r ysgol feithrin yn golygu na fyddai yn endid ar wahân mwyach. Er enghraifft, ni fyddai ganddi gyllideb ar wahân ac ni fyddai'n atebol i archwiliad gan Estyn. Fodd bynnag, byddai'r ddarpariaeth feithrin yn parhau o'r adeilad meithrin cyfredol. Ni fydd unrhyw fwch yn addysg y plant oherwydd y cyfuno arfaethedig. Byddai gan yr ysgol, o'i chyfuno, ddosbarthiadau meithrin â'r capasiti ar gyfer yr un faint o leoedd llawn amser ag sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd. Byddai Ysgol Gynradd Goetre hefyd yn parhau i ddarparu 59 lle (dau ddosbarth) ar gyfer pob grŵp oedran, o'r derbyn i fyny at Flwyddyn 6, gyda chyfanswm o 500 o leoedd i ddisgyblion. Caiff ei gynnig fod dosbarthiadau LIAD yr awdurdod lleol cyfredol yn aros yn eu hunfan.

Caiff ei gynnig y byddai Pennaeth Ysgol Gynradd Goetre yn dyfod yn Bennaeth i'r ysgol gyfunedig a disgwylir fod staff o'r ysgol feithrin yn dyfod yn rhan o'r ysgol gyfunedig newydd.

Byddai Corff Llywodraethu'r ysgol gynradd yn parhau fel Corff Llywodraethu'r ysgol gyfunedig a gallai ethol i gynyddu ei haelodaeth o 13 aelod i 17 yn cynnwys aelodau o Gorff Llywodraethu'r ysgol feithrin.

Goetre Primary School Catchment Area



© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100025302.
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

YSGOLION SY’N GWASANAETHU’R ARDAL AR HYN O BRYD

Darpariaeth Feithrin

- Caiff addysg feithrin ei darparu gan Ysgol Feithrin Gurnos

Darpariaeth Gynradd

- Caiff addysg gynradd cyfrwng Saesneg ei darparu gan Ysgol Gynradd Goetre
- Caiff addysg gynradd enwadol cyfrwng Saesneg ei darparu gan Ysgol Gynradd Gatholig Sant Aloysius
- Caiff addysg gynradd cyfrwng Cymraeg ei darparu gan Ysgol Santes Tudful

Darpariaeth Uwchradd

- Mae Ysgol Gynradd Goetre yn bwydo mewn i’r ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg canlynol: Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre
- Mae addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gael yn Ysgol Gyfun Rhyd y Waun
- Mae addysg uwchradd enwadol ar gael yn: Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley

GWYBODAETH AM YR YSGOLION

Galw cyfredol am leoedd – Ysgol Feithrin Gurnos

Mae gan Ysgol Feithrin Gurnos y capasiti ar gyfer cyfwerth o 83 o leoedd llawn amser. Ar hyn o bryd mae (2017/18) 55 o blant yn mynychu’r ddarpariaeth feithrin, ac o’r rheini mae 78% yn byw oddi fewn i ffiniau’r dalgylch, o oedran meithrin. Mae 84% o’r plant sy’n mynychu’r ysgol feithrin yn ystod y flwyddyn academaidd 2016/17 yn byw oddi fewn i ddalgylch yr ysgol feithrin. Fel arfer mae Ysgol Feithrin Gurnos yn derbyn plant cyn-meithrin ym mis Ionawr, felly bydd y ffigur o 55 yn cynyddu.

GWYBODAETH GYFFREDINOL AM YR YSGOL						
Ysgol	Math o ysgol	Categori iaith	Niferoedd Derbyn	Capasiti’r Ysgol	Niferoedd ar gofrestr 2017/18	Ystod oed
Ysgol Feithrin Gurnos	Meithrin	Saesneg	83	83	55 Medi 2017 yn codi pob tymor	3-4

LEFEL Y LLEFYDD GWAG PRESENNOL				
Ysgol	Capasiti’r Ysgol (llefydd rhan amser)	Niferoedd ar y gofrestr	Llefydd Gwag	% Llefydd gwag
<u>Ysgol Feithrin Gurnos</u>	<u>83</u>	<u>78 amcangyfrif (Ionawr 2018)</u>	<u>5 (Ionawr 2018)</u>	<u>6% (Ionawr 2018)</u>

Galw cyfredol am leoedd – Ysgol Gynradd Goetre

Mae gan Ysgol Gynradd Goetre y capasiti am 413 o leodd. Mae 394 o blant (ac eithrio disgyblion LIAD – y mae 28 ohonynt) ar y gofrestr ar hyn o bryd gyda 77.1% yn preswyllo yn nalgylch yr ysgolion.

GWYBODAETH GYFFREDINOL AM YR YSGOL						
Ysgol	Math o ysgol	Categori iaith	Niferoedd Derbyn	Capasiti'r Ysgol	Niferoedd ar gofrestr 2017/18	Ystod oed
Ysgol Gynradd Goetre	Cynradd	Saesneg	59	413	394	4-11

LEFEL Y LLEFYDD GWAG PRESENNOL				
Ysgol	Capasiti'r Ysgol (llefydd rhan amser)	Niferoedd ar y gofrestr	Llefydd Gwag	% Llefydd gwag
Ysgol Gynradd Goetre	413	394	19 (Medi 2017)	4.6%

Galw am leodd yn y dyfodol

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am y nifer o blant sy'n mynychu'r ysgolion a'r nifer y disgwylir i fynychu yn y dyfodol.

NIFEROEDD DIWEDDAR AR DDYDDIAD Y GOFRESTR A NIFEROEDD RHAGAMCANOL AR Y GOFRESTR DATA AR GYFER YSGOLION											
Ysgol	Capasiti Presennol yr Ysgol	Ionawr 2013	Ionawr 2014	Ionawr 2015	Ionawr 2016	Ionawr 2017	Rhagamcan 2017/18	Rhagamcan 2018/19	Rhagamcan 2019/20	Rhagamcan 2020/21	Rhagamcan 2021/22
Ysgol Feithrin Gurnos	83	75	93	91	75	74	78	75	75	75	75
Ysgol Gynradd Goetre	413	374	385	385	406	391	400	401	401	410	403

Rhagolygon Ysgol Feithrin

Caiff plant gynnig lle yn yr ysgol feithrin o'r tymor ar ôl eu pen blwydd yn dair oed, un ai yn ystod tymor yr hydref, gwanwyn neu haf. Mae rhagolygon o ran disgyblion yn dynodi fod y sefyllfa hon am barhau yn y dyfodol rhagweladwy.

Rhagolygon Ysgol Gynradd

Mae rhagolygon disgyblion yn rhagweld bydd y nifer ar gofrestr yr ysgol gynradd yn cynyddu i 401 erbyn Ionawr 2020 gan ddynodi posibilrwydd o gapasiti dros ben o 2.9%. O'r plant ar y gofrestr fis Ionawr 2017:

- Mae 77.1% o blant yn byw oddi fewn i ardal dalgylch yr ysgol
- Mae 22.9% o blant yn byw yn ardaloedd dalgylch ysgolion cynradd eraill Merthyr Tudful

PERFFORMIAD CYFREDOL

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos at gyrff llywodraethu'r ddwy ysgol i sicrhau fod safonau'r ysgolion yn uchel, bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel a bod ar arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio â dau sefydliad er mwyn monitro'r perfformiad yr ysgolion a chefnogi gwella ysgolion.:

- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CCD),
- Estyn

Cafodd Consortiwm Canolbarth y De (CCD) ei sefydlu ym mis Medi 2012. Mae'r Consortiwm yn cefnogi ac yn herio holl ysgolion Merthyr Tudful ar ran y Cyngor.

Swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant ei Mawrhydi yng Nghymru yw Estyn. Corff y Goron ydyw, a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol o Lywodraeth Cymru ond mae'n derbyn ei arian oddi wrth Lywodraeth Cymru o dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Caiff ysgolion eu harolygu gan Estyn fel rhan o raglen arolwg ysgolion cenedlaethol. Diben arolwg yw dynodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion fel eu bod yn gallu gwella ansawdd yr addysg a gynigir ynddynt a safonau a gyflawnwyd gan eu disgyblion (Estyn). Yn ystod pob arolwg ysgol, mae arolygwyr yn anelu at ateb tri chwestiwn allweddol:

- Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheoli?

Mae arolygwyr hefyd yn darparu barn gyffredinol am berfformiad cyfredol yr ysgol ac am ei ragolygon am wellai. Mae arolygwyr yn defnyddio graddfa pedwar pwynt yn y gwerthuso hwn:

Dyfarniad	Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu
Ardderchog	Llawer o gryfderau gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarferion da'r sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n arwyddocaol
Digonol	Cryfderau yn trechu meysydd sydd angen eu gwella
Anfoddhaol	Meysydd pwysig sydd angen eu gwella yn trechu cryfderau

Adroddiadau Estyn

YSGOL FEITHRIN GURNOS – arolygwyd ym mis Gorffenna 2012.

Crynodeb o'r Arolwg

Perfformiad presennol yr ysgol	Ardderchog
Rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwneud gwelliannau	Ardderchog

Perfformiad Cyfredol

Mae'r ysgol yn ardderchog achos bod:

- safonau a chynnydd yn ardderchog;
- y cwricwlwm yn arloesol a chyffrous;
- y bartneriaeth â rhieni a gofalwyr yn rhagorol;
- sylw da iawn yn cael ei roi i safbwyntiau disgyblion;
- ansawdd yr addysgu yn ardderchog; ac
- mae yna adnoddau o ansawdd uchel iawn a digon ohonynt.

Rhagolygon ar gyfer gwella

Mae'r rhagolygon am welliant yn ardderchog achos bod:

- safonau wedi codi yn gyson ac yn sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn;
- arweinyddiaeth y Pennaeth yn ddynamig;
- y staff i gyd yn ymroddedig iawn tuag at welliant yn y dyfodol;
- partneriaethau proffesiynol cryf ag ystolion eraill a chyrff addysgiadol; a bod
- hunan arfarnu yn drylwyr ac yn gywir.

Cwestiwn Allweddol	Dyfarniad
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? ✓ Safonau – Ardderchog ✓ Lles - Ardderchog	Ardderchog
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? ✓ Profiadau dysgu – Ardderchog ✓ Dysgu – Ardderchog ✓ Gofal, cymorth ac arweiniad – Ardderchog ✓ Amgylchedd dysgu – Ardderchog	Ardderchog
Cwestiwn Allweddol 3 Pa mor dda yw'r Arweinyddiaeth a'r Rheolaeth? ✓ Arweinyddiaeth – Ardderchog ✓ Gwella safon – Ardderchog ✓ Gweithio mewn partneriaeth – Ardderchog ✓ Rheoli Adnoddau – Ardderchog	Ardderchog

Gellir dod o hyd i adroddiad arolwg diweddaraf Ysgol Feithrin Gurnos yma:

<https://www.estyn.gov.wales/provider/6751027>

YSGOL GYNRADD GOETRE— archwiliwyd ym mis Rhagfyr 2013.

Crynodeb o'r Arolwg

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwneud gwelliannau	Digonol

Perfformiad Cyfredol

Mae'r perfformiad cyfredol yn ddigonol achos:

- mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth ragorol i ddisgyblion sy'n agored i niwed o ran eu hiechyd a lles emosiynol;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd y lefelau cynnydd disgwyliadwy o leiaf o waelodlin isel iawn yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- bod athrawon a staff cynorthwyol yn gweithio'n effeithiol i sicrhau fod disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn llythrennedd a rhifedd mewn gwersi strwythuredig; a
- mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni targedau heriol a osodir ar eu cyfer

Fodd bynnag:

- mae perfformiad disgyblion a diwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2 yn gyson is na chyfartaledd perfformiad ar gyfer ysgolion tebyg;
- mae ffigurau presenoldeb yn gyson is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru ac
- mae amser addysgu a dreulir ar fentrau penodol yn gadael amser cyfyngedig i gynnwys y cwricwlwm ehangach.

Rhagolygon ar gyfer gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn ddigonol achos:

- mae arweiniad y Pennaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad strategol yr ysgol;
- mae'r ysgol yn talu sylw priodol i fynd i'r afael â llawer o flaenoriaethau cenedlaethol;
- mae system briodol gan yr ysgol ar gyfer gwerthuso ei gwaith; a
- ceir cysylltiadau clir rhwng deilliannau hunan arfarnu a blaenoriaethau o ran gwella.

Fodd bynnag:

- nid yw'r blaenoriaethau ar gyfer gwella wedi cael effaith gadarnhaol eto ar safonau yn y meysydd craidd yn y Cyfnod Sylfaen na'r pynciau craidd yn CA2; ac
- nid yw rôl y Llywodraethwyr o ran herio'r ysgol heb ddatblygu ddigon.

Yn dilyn yr arolwg hwn, barnwyd bod Monitro Estyn yn ofynnol gan sbarduno ymweliad i ddilyn oddi wrth Estyn yn 2015. Canfu'r ymweliad fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolwg craidd a bod gwelliant sylweddol yn ofynnol. Cafwyd craffu pellach gan Estyn dros y ddwy flynedd nesaf. Ym mis Chwefror 2017, barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da, a'i chymryd oddi ar y rhestr o ysgolion ble y mae gwelliant sylweddol yn ofynnol heb unrhyw ymweliadau monitro pellach gan Estyn yn angenrheidiol. Gellir dod o hyd i adroddiadau ymweliadau arolwg a monitro ar gyfer Ysgol Gynradd Goetre yma <https://www.estyn.gov.wales/provider/6752356>

Catgoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014 cyflwynodd Llywodraeth Cymru system catgoreiddio newydd a oedd yn ystyried safonau pob ysgol ochr yn ochr â chapasiti'r ysgol i wella er mwyn deall y lefel o gefnogaeth fel yr angen CSC i'r roi i ysgol fel ei bod yn cyflawni ei thargedau.

Mae'r system catgoreiddio yn cael ei ddisgrifio isod:

Categori	Beth mae'r categori yn ei olygu
Gwyrdd	Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwneud gwelliannau.
Melyn	Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n adnabod y meysydd sydd angen eu gwella.
Oren	Ysgol sydd angen ei gwella ac sydd angen cymorth er mwyn dynodi'r camau ar gyfer gwneud gwelliannau neu wneud i newid ddigwydd yn gynt
Coch	Ysgol sydd angen gwelliant dybryd ac a fydd yn derbyn cefnogaeth ddwys ar unwaith.

I ddynodi'r categori cod lliw yn ôl yr esboniad yn y tabl uchod, caiff ysgolion eu gosod mewn un o bedwar grŵp ar gyfer safonau (1-4) ac ar gyfer arwain at welliant (A-D) gydag un yn cynrychioli'r grwpio uchaf ar gyfer safonau ac A yr uchaf o ran capasiti gwella.

Am wybodaeth bellach am y cynllun catgoreiddio, gweler canllaw rhieni Llywodraeth Cymru i'r System Catgoreiddio Ysgolion Cenedlaethol:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-en.pdf>

Ysgol	Graddfa Safonau	Capasiti Gwelliant	Categori Cyffredinol
Ysgol Feithrin Gurnos	Amh	A	Gwyrdd
Ysgol Gynradd Goetre	3	B	Melyn

Dylid nodi na chaiff catgoreiddio ysgolion meithrin ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru gan nad yw'r safonau a asesir gan y model hwn yn gymwys i ysgolion meithrin. Felly dim ond yn ôl ei gapasiti i wella y mae'r ysgol feithrin wedi cael ei hasesu.

Darpariaeth

Nod y cynnig yw creu ysgol gynradd 3 i 11 oed drwy gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre. Byddai cyfuno yn galluogi cryfderau presennol yr ysgol feithrin bresennol ac ysgolion cynradd i gael eu cyfuno i gyflenwi darpariaeth ansawdd uchel mewn un ysgol yn gweithredu ar draws dau safle cyfagos. Byddai hyn yn caniatáu gweledigaeth a rennir ac arweinyddiaeth a rennir sy'n mewnbllannu'n llwyr gwricwlwm cyson a chydlynol ar draws y cyfnod cynradd.

Ni ddylai'r newidiadau gael unrhyw effaith negyddol ar unrhyw gam o'u haddysg yn yr ysgol. Yn ystod y cam cynnar iawn hwn yn addysg y plant, byddai dull gweithredu cyson yn cael ei ddarparu ar gyfer eu dysgu a fyddai'n eu dilyn drwy gydol eu hamser yn yr ysgol a'u helpu i ddeall eu lle oddi fewn i deulu'r ysgol.

Deilliannau (Safonau a Llesiant)

Mae'r cynnig yn hwyluso athroniaeth addysg gyson i blant am hyd at naw mlynedd o addysg ddi-dor, gan felly isafu'r potensial am aflonyddwch rhwng pontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd.

Byddai cyflwyno strategaethau rheoli ymddygiad cyson ar draws pob oedran yn arwain at ddisgwyliadau clir ac ethos a rennir a gaiff ei ddeall gan blant, rhieni a gofalwyr drwy gydol y cyfnodau cynradd a'r blynyddoedd cynnar.

Bydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn parhau i gael eu dynodi ar oedran cynnar fel y mae ar hyn o bryd yn yr ysgol feithrin. Byddai'r cynnig yn cefnogi dull gweithredu cydlynol i gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion sy'n agored i niwed ar draws y Cyfnod Sylfaen.

Arweinyddiaeth a Llywodraethiant

Byddai sefydlu un Tîm Arwain a Chorff Llywodraethu unigol yn arwain at waredu dyblygu swyddogaethau rheoli a llywodraethiant.

Byddai symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddu, yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau ar y cyd a Chytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer adeiladu a gwasanaethau cefnogi eraill yn arwain at arian sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol.

Byddai'r ysgol gyfunedig yn ei wneud yn haws i ymgysylltu â rhieni yn enwedig ble mae ganddynt blant o oedran meithrin a chynradd. Dim ond ag un set o bolisiau ac un set o gyfathrebiadau y byddai'n rhaid i rieni ddyfod yn gyfarwydd â nhw.

Cyflwr adeiladau ac adnoddau ysgolion

Nod y Cyngor yw darparu'r adnoddau gorau posibl i blant ym Merthyr Tudful i gefnogi eu dysgu. Ers 2014/15 ymgwymerwyd â rhaglen dreigl o adolygu adeiladau. Roedd yr adolygiad

diwethaf o Ysgol Feithrin Gurnos cyn y rhaglen dreigl yma, yn 2008, gyda'r arolwg diwethaf ar gyfer Ysgol Gynradd Goetre yn 2015/16.

Roedd yr arolwg cyflwr yn cynnwys asesiad gweledol o'r holl rannau i'w gweld o'r adeiladau er mwyn dynodi unrhyw ddiffygion sylweddol ac eitemau adfeiliedig.

Ysgol	Math o Ysgol	Cyflwr Adeilad yr Ysgol	Cost gwaith adnewyddu sydd wedi cael eu dynodi
Ysgol Feithrin Gurnos	Cyfrwng Saesneg	B	£98,160
Ysgol Gynradd Goetre	Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg	C	£111,091

Nododd adroddiad yr arolwg cyflwr fod angen am y lefel leiaf o ymyrraeth i sicrhau fod safon y ddarpariaeth ansawdd uchel yn cael ei gynnal.

Ni ragwelir y bydd unrhyw ofyniad am adnoddau ychwanegol i'w darparu yn yr ysgol fel rhan o'r cais hwn.

SUT FYDDAI YSGOLION ERAILL YN CAEL EU HEFFEITHIO?

Ceir symudiad cyfyngedig ar draws y dalgylch o ddisgyblion rhwng ysgolion cynradd cymunedol cymdogol cyfrwng Saesneg. Mae hawl gan rieni i fynegi ffafriaeth o ran ysgol o'u dewis. Ni ragwelir y byddai cyfuno'r ysgol feithrin a'r ysgol gynradd yn newid hyn ac felly'r effaith leiaf fyddai ar ysgolion lleol eraill yn yr ardal.

SUT FYDDAI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (AAA) YN CAEL EU HEFFEITHIO?

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am anghenion disgyblion cyfredol. Dylid nodi fod gan yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd niferoedd sylweddol o ddisgyblion ar y rhestr AAA o'u cymharu â ffigyrau'r awdurdod lleol a Chymru.

2017		Gurnos	Goetre	ALI	Cymru
Canran cyfanswm y garfan sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig	Gweithredu gan yr Ysgol	27%	32.9%	16.8%	12.7%
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	16.2%	13.5%	9.9%	7.1%
	Wedi derbyn Datganiad	0%	0.2%	2.5%	2.6%
Cyfanswm		43.2%	46.6%	29.2%	22.4%

O ran Goetre, cafodd 29 o ddisgyblion fynediad at Leoliadau Adnoddau Dysgu (LIAD) yn 2016-17. O'r rheini, Gweithredu Ysgol a Mwy oedd 96.5% ac roedd datganiad gan 3.5% (1 disgybl).

O ddadelfennu LIADau o ffigurau'r ysgol, mae gan yr ysgol 6.4% Gweithredu Ysgol a Mwy ac 0% ar ddatganiad. (Nid yw ffigurau Gweithredu Ysgol yn cael eu heffeithio.)

Roedd 55.1% o'r disgyblion LIAD yn y dalgylch a 44.8% ddim yn y dalgylch.

Yn 2017-18, tymor yr Hydref, ceir 27 o ddisgyblion LIAD, gyda 85.2% ohonynt yn Gweithredu Ysgol a Mwy ac 14.8% â Datganiad.

BETH YW MANTEISION Y CYNNIG HWN??

Caiff ei ystyried fod y buddion addysgol canlynol gan y cais:

- Un Tîm Arwain a Chorff Llywodraethu unigol, yn cefnogi Pennaeth a fyddai'n gyfrifol am yr 'ysgol gyfan'
- Cyfleoedd i ddarparu cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i'r staff drwy eu galluogi i ennill profiad oddi fewn i amgylchedd Cyfnod Sylfaen 'syth drwodd' i Gyfnod Allweddol 2.
- Set sengl o bolisïau a chod ymarfer yn gyson ar draws yr holl grwpiau blwyddyn
- Parhad o'r ddarpariaeth, gan adlewyrchu ethos a diwylliant sengl
- Rhyddhau arian a allai gael ei ail-fuddsoddi mewn dysgu ac addysgu
- Profiad cwricwlaidd cyson ar draws y Cyfnod Sylfaen
- Symleiddio cyfathrebu rhwng rhieni a staff gydag un pwynt cyswllt drwy gydol y Cyfnod Sylfaen

BETH YW ANFANTEISION Y CYNNIG HWN?

Cydnabyddir y gallai peth anfanteision neu risgiau posibl fodoli y byddai'n rhaid i'r ysgol a'r Cyngor eu rheoli er mwyn osgoi unrhyw effaith niweidiol:

- Mae'n bosibl y byddai amharu ar reoli staff ac adnoddau yn ystod y broses ailstrwythuro, er y byddai profiad y Cyngor wrth gyfuno ysgolion yn sicrhau fod cyn lleied o aflonyddu ac nad yw addysg y plant yn dioddef
- Gallai gostwng i un Pennaeth gael effaith ar fynediadwyedd at yr arweinyddiaeth o ran staff, rhieni a disgyblion
- Mae'n bosibl na fyddai plant yn yr ysgol feithrin yn teimlo'n hyderus wrth ddyfod yn rhan o amgylchedd ysgol gynradd.

CYNLLUN PONTIO OS YW'R CYNIGION YN CAEL EU CYMERADWYO

Byddai ceisiadau'r Cyngor yn golygu y byddai'r ddwy ysgol yn cael eu cyfuno ar ddechrau tymor yr Hydref ym mis Medi 2018. Rhagwelir os gaiff y cynnig ei gymeradwyo'n llawn ym mhob cam y caiff y penderfyniad olaf ei wneud am gyfuno ym mis Mehefin 2018.

Byddai'r holl blant ar gofrestr Ysgol Gynradd Goetre ym mis Awst 2018 yn trosglwyddo i'r ysgol gyfunedig ym mis Medi 2018, ac eithrio disgyblion sy'n cael dod i'r dosbarth derbyn am y tro cyntaf, ble y byddai rhieni wedi gorfod gwneud cais am le yn y dosbarth derbyn, yn unol â gweithdrefnau derbyn arferol.

Byddai plant ym Mlwyddyn 1 y dosbarth meithrin ac sy'n disgwyl cael blwyddyn bellach o addysg blynyddoedd cynnar yn y dosbarth meithrin ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18 yn parhau yn nosbarth meithrin yr ysgol gyfunedig.

RISGIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R CYNNIG

- Anawsterau posibl wrth ddod â dau o ymarferion gweithio at ei gilydd i'r un Cyfnod Sylfaen
- Yr her o weithredu ar draws dau adeilad ar wahân
- Gwrthwynebiad posibl i, neu ddatgyweddïad â'r broses newid ymhlith rhanddeiliaid

Caiff yr heriau a amlinellir uchod eu rheoli gan Bennaeth, Uwch Dîm Rheoli a Chorff Llywodraethu'r ysgol gyfunedig, gyda chymorth oddi wrth y Cyngor. Mae gan y ddwy ysgol ymarferion gweithio sy'n effeithiol a hyblyg ac â phartneriaeth gweithio cryf ar draws y ddwy ysgol. Bydd angen i'r Pennaeth, Uwch Dîm Rheoli a'r Corff Llywodraethu fabwysiadu proses newid rheoli tryloyw a theg i sicrhau fod pawb sy'n gweithio, dysgu ac yn cael eu dysgu yn cael y lleiaf o aflonyddu drwy'r broses o gyfuno.

TREFNIADAU DERBYN AC ARDAL DDALGYLCH

Bydd trefniadau derbyn ar gyfer derbyn i'r ysgol Feithrin a Derbyn yn parhau heb eu newid o ganlyniad i'r ceisiadau hyn. Bydd ardal dalgylch yr ysgol yn parhau'r un peth.

Trefniadau derbyn ar gyfer addysg feithrin

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer holl ysgolion meithrin cymunedol a gynhelir ac ysgolion gwirfoddol a reolir ym Merthyr Tudful. Ni ellir dyrannu lle mewn ysgol feithrin gymunedol neu wirfoddol a reolir heb wneud cais ffurfiol i'r Cyngor. Gellir dod o hyd i fanylion llawn am y meini prawf ymgeisio, dyddiadau a dyddiadau cau ar gyfer addysg feithrin yng nghyhoeddiad y Cyngor '**Canllaw i Bolisi a Threfniadau Derbyn i Ysgolion 2018-2019**' sydd i'w ganfod yma <https://www.merthyr.gov.uk/resident/schools-and-learning/admissions-and-appeals/school-admissions/>

Trefniadau derbyn ar gyfer addysg gynradd

Ni fydd plant sy'n mynychu dosbarth meithrin â'r hawl awtomatig am addysg barhaus yn yr un ysgol wrth symud i fyny i ddosbarth derbyn, boed yn preswyllo yn y dalgylch neu y tu allan iddo. Bydd yn ofynnol i rieni gwblhau cais ar gyfer eu hysgol ddewisol. Pan fydd mwy o geisiadau nad sydd yna o leodedd ar gael yn y dosbarth derbyn, caiff lleoedd eu dyrannu wrth gymhwyso meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor sy'n blaenoriaethu plant sy'n byw yn yr ardal ddalgylch cyn rhai eraill.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn am yr holl ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a'r broses ymgeisio yn y '**Canllaw i Bolisi a Threfniadau Derbyn i Ysgolion 2018-2019**', sydd i'w ganfod yma <https://www.merthyr.gov.uk/resident/schools-and-learning/admissions-and-appeals/school-admissions/>

CYLLID

Buddsoddi Cyfalaf

Nid oes unrhyw oblygiadau buddsoddi cyfalaf gan y cais hwn.

Costau rhedeg

Byddai cyfuno'r ddwy ysgol yn arwain at arian yn cael ei ddyrannu i'r ysgol gynradd ar yr un sail ag ar gyfer ysgolion cynradd eraill sydd â meithrin.

Byddai'r arian a ddirprwyir ar gyfer yr ysgol gyfunedig newydd tua £70,000 yn llai na'r arian a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer ysgolion meithrin a chynradd ar wahân. Pe byddai'r ysgolion yn parhau ar eu safleoedd cyfredol, byddai lwfans rhannu safle £49,000 yn cael ei gynnwys yng nghyllideb yr ysgol gynradd newydd, sydd angen ei dynnu o'r £70,000. Gan mai'r cynnig yw cyfuno o fis Medi 2018, byddai'r arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 yn £13,000.

MATERION ADNODDAU DYNOL

Bydd y Cyngor yn cefnogi'r Llywodraethwyr, Penaethiaid a Staff yn y ddwy ysgol gydag unrhyw newidiadau a allai fod yn ofynnol.

Bydd gan y ddwy ysgol fynediad at bolisïau a gweithdrefnau Adran Adnoddau Dynol CBS Merthyr Tudful, fel y Polisi Diswyddo. Bydd gwasanaethau Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos at Lywodraethwyr i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir yn digwydd.

MATERION TRAFNIDIAETH

Gan na fydd yna unrhyw newid i gapasiti cyffredinol yr ysgol nac unrhyw estyniad i gyfleusterau cyfredol, ni ragwelir y bydd unrhyw newid i draffig neu dagfeydd o gwmpas yr ysgol. Ni fydd unrhyw effaith ar deithiau disgyblion o ganlyniad i'r cais a bydd y llwybrau cerdded i'r ysgol sydd ar gael ar hyn o bryd yn parhau'r un peth.

TREFNIADAU TEITHIO DYSGWR

O dan y ceisiadau hyn, nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ynghylch trafnidiaeth plant i'r ysgol ac yn ôl adref.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu trefniadaeth ysgol am ddim i ddisgyblion i'r ysgol agosaf sydd ar gael os ydynt yn preswyllo y tu hwnt i 'bellter cerdded' i'r ysgol honno. Caiff y gyfraith sy'n berthnasol i bellter cerdded ei diffinio fel dwy filltir ar gyfer oedran cynradd. Ar hyn o bryd mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn darparu trafnidiaeth ar gyfer disgyblion oedran cynradd sy'n byw dros ddwy filltir o'u hysgol gynradd agosaf neu ddynodedig o ran dalgylch.

Nid yw'r Cyngor yn darparu trafnidiaeth am ddim i ysgolion ar gyfer plant oed meithrin ac eithrio'r plant hynny sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, y gellir ei ganfod yma <https://www.merthyr.gov.uk/resident/schools-and-learning/special-educational-needs-sen/trafnidiaeth-gyfer-disgyblion-sydd-ag-anghenion-addysgol-arbennig-anabledd-aneu-gyflwr-meddygol/>

EFFAITH Y CYNNIG AR YR IAITH GYMRAEG

Caiff rhaglen defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol ei datblygu ar draws cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gyda'r defnydd o'r iaith yn dyfod yn amlach ac yn fwy cymhleth wrth i'r plant symud drwy'r grwpiau blwyddyn i mewn i Gyfnod Allweddol 2.

ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Caiff asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ei gyflawni fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ac fe gaiff ei gynnwys yn adroddiad yr ymgynghoriad.

YSTYRIAETH I EFFAITH GYMUNEDOL

Bydd cyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre yn darparu cyfle i wella ymgysylltiad cymunedol ar draws yr ystod oedran estynedig. Ni chaiff y cyfleusterau cyfredol ar gael i ddisgyblion, y gymuned a rhieni gael eu heffeithio'n groes gan y cynigion hyn.

DYDDIADAU ALLWEDDOL

Caiff yr adborth o'r ymgynghoriad hwn ei goladu a'i grynhoi cyn cyflwyno adroddiad i Gabinet y Cyngor. Bydd adroddiad o'r ymgynghoriad ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor. Gellir cael copïau hefyd ar gais drwy ddefnyddio manylion cyswllt oddi fewn i'r ddogfen hon. Ceir nifer o gamau pellach sydd yn rhaid i'r Cyngor eu dilyn cyn bod penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cyngor, ac fe'u nodir isod. Mae'n bosib y bydd newidiadau i'r amserlen arfaethedig.

Amserlen	Y Broses Statudol
5 Chwefror 2018	Cyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol
29 Mawrth 2018	Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau / safbwyntiau ar yr argymhelliad
18 Ebrill 2018	Adroddiad ymgynghorol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet (cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghorol) Cabinet i benderfynu os dylid cymeradwyo cyhoeddi Hysbysiad Statudol Os na chymeradwyr – argymhelliad i gael ei dynnu yn ôl / ailasesu
27 Ebrill 2018	Cyhoeddi Hysbysiad Statudol Os cymeradwyr, bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i bostio yn yr ysgolion a enwir. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael ar gyfer yr ysgolion perthnasol er mwyn eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni/gofalwyr ac aelodau o'r staff
25 Mai 2018	Dyddiad cau ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau i'r Argymhelliad
13 Mehefin 2018	Os derbynnir gwrthwynebiadau:

	Adroddiad gwrthwynebiad i'w gyflwyno i'r Cabinet Cabinet i benderfynu ar yr argymhelliad yng ngoleuni'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd a chynnwys yr Adroddiad Gwrthwynebiad
27 Mehefin 2018	Cyhoeddi Penderfyniad y Cabinet
1 Medi 2018	Gweithredu'r Argymhelliad

CYFNOD YMGYNGHORI

Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cais hwn yn rhedeg o ddydd Llun 5 Chwefror – ddydd Iau 29 Mawrth. Gweler tudalen 7 am fanylion pellach o sut i ymateb a dweud eich dweud.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael hefyd ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgynghorai yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn darparu ymateb y Cyngor i'r materion. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys safbwynt Estyn am y ceisiadau.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am barhau â'r ceisiadau ai peidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r ceisiadau rhaid i'r Cyngor gyhoeddi Hysbysiad Statudol.

HYSBYSIAD STATUDOL

Byddai'r Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i bostio ar neu wrth ymyl prif fynedfa'r ysgolion sy'n cael eu henwi fel rhan o'r broses ymgynghori. Byddai copïau o'r hysbysiad ar gael i Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni ac aelodau o staff (gallai'r ysgol hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost). Bydd yr hysbysiad yn gosod allan manylion am y ceisiadau a gwahodd unrhyw un sydd am wrthwynebu i wneud hynny yn ysgrifenedig oddi fewn i'r cyfnod a benodwyd.

PENDERFYNU AR Y CYNIGION

Bydd y Cabinet yn penderfynu ar y cynigion. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo ar y cynigion gydag addasiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cabinet yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol y mae wedi eu derbyn.

HYSBYSIAD AM Y PENDERFYNIAD

Ar ôl penderfynu ar y cynigion, bydd pob parti sy'n mynegi diddordeb yn cael gwybod beth yw'r penderfyniad a gaiff ei gyhoeddi'n electronig ar wefan y Cyngor.

Pwy fydd Pennaeth yr ysgol gynradd gyfunedig?

Pennaeth gwreiddiol Ysgol Gynradd Goetre fydd y Pennaeth. Bydd y dosbarth meithrin yn rhan integredig o'r ysgol. Bydd y Pennaeth yn estyn y cylch gwaith i gynnwys ystod oedran estynedig yr ysgol. Penderfynir ar y strwythur staffio gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu'r ysgol gyfunedig.

Beth fydd yn digwydd i staff yn yr ysgol feithrin?

Rhagwelir y bydd staff yr ysgol feithrin yn cael eu cynnwys i'r ysgol gynradd gyfunedig newydd. Byddai Pennaeth a Chorff Llywodraethu'r ysgol gyfunedig yn penderfynu ar fanylion y strwythur staffio.

Pwy fydd Llywodraethwyr yr ysgol gynradd gyfunedig?

Byddai Corff Llywodraethu presennol yr ysgol gynradd yn parhau yn ffurfiol fel Corff Llywodraethu'r ysgol gyfunedig. Gallai'r Corff Llywodraethu ddewis estyn ei aelodaeth o 13 aelod i 17 yn cynnwys aelodau o Gorff Llywodraethu'r ysgol feithrin. Penderfyniad y Corff Llywodraethu fyddai hyn.

Beth fyddai'r cais yn ei olygu i blant sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre? Fydd fy mhlentyn yn cael cynnig lle yn yr ysgol gyfunedig?

Caiff yr holl blant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Goetre ar adeg y cyfuno eu gwarantu o le yn yr ysgol gyfunedig.

Byddai plant sydd ar hyn o bryd yn yr ysgol feithrin ac a fyddai'n parhau i fynychu'r ysgol feithrin am flwyddyn bellach yn 2018/19 yn derbyn lle yn awtomatig yn nosbarth meithrin yr ysgol gyfunedig.

Dylai pob teulu sydd am wneud cais am le yn y dosbarth derbyn fel rhan o broses derbyn lle i ysgol gynradd 2018/19 ddilyn y dull gweithredu arferol fel y caiff ei osod allan yn y **'Canllaw i Bolisi a Threfniadau Derbyn i Ysgolion 2018-2019'** y gellir dod o hyd iddo yma <https://www.merthyr.gov.uk/resident/schools-and-learning/admissions-and-appeals/school-admissions/>

Beth fydd y trefniadau derbyn i blant sy'n gwneud cais am le yn Nosbarth Derbyn yr ysgol gynradd ar gyfer mis Medi 2018?

Bydd y Cyngor yn parhau i fod yn awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol gyfunedig. Gall plant ddechrau addysg llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn bedair oed.

Beth fydd y trefniadau derbyn i blant sy'n gwneud cais am le yn Nosbarth Meithrin yr ysgol gynradd gyfunedig?

Mae gan blant hawl am le meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed. Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol, yn cynnwys meithrin a derbyn

i'r flwyddyn derbyn. Caiff trefniadau derbyn eu trafod ar dudalen 19 y ddogfen gynnig hon. Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn rhoi hawl awtomatig i blentyn i le derbyn yn yr un ysgol. Caiff rhieni eu hatgoffa os ydyn nhw'n cael cynnig lle i'w plentyn ym meithrin, rhaid gwneud cais newydd am fynediad i ddosbarth derbyn yr ysgol.

Fydd yna unrhyw newidiadau i'r dalgylch lleol os fydd y cynnig yn mynd rhagddo?

Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre yr un ardaloedd dalgylch (fel y dangosir ar fap yr ardal ddalgylch ar dudalen 9). Ni fydd unrhyw newid i'r ardal ddalgylch yn sgil y cyfuno arfaethedig.

Fydd cyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre yn golygu fod enw newydd gan Ysgol Gynradd Goetre?

Y cynnig yn y ddogfen hon yw estyn ystod oedran yr ysgol yn unig. Ni fydd unrhyw angen i'r ysgol newid ei henw.

Fydd pholisïau'r ysgol yn newid i adlewyrchu'r plant oedran meithrin newydd a'u hanghenion?

Penderfyniad y Corff Llywodraethu a Phennaeth yr ysgol fydd hyn. Bydd yr ysgol yn adolygu ei pholisïau i sicrhau fod yr holl blant yn yr ysgol yn cael eu cynnwys ym mholisïau llywodraethiant a diogelu'r ysgol.

Fydd hi'n ofynnol i'r plant meithrin wisgo gwisg i'r ysgol?

Caiff y penderfyniad hwn ei wneud gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu'r ysgol.

Cyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre

Mae eich safbwyntiau'n cyfri; dywedwch wrthym beth yw eich barn am y cynigion drwy:

- gwblhau ffurflen ymateb ar-lein ar <http://www.cwmtafhub.co.uk/kms/news.aspx>
 - ateb cwestiynau'r ymgynghoriad ac ychwanegu eich safbwyntiau ar y ffurflen hon, ac yna dylech ei dychwelyd i'r cyfeiriad sydd ar waelod y ffurflen.

Nodwch fod yn rhaid i'r holl sylwadau gynnwys enw a chyfeiriad llawn y person sy'n gwneud y sylwadau.

Dyddiad cau ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw 29 Mawrth 2018.

Yn anffodus, ni fydd unrhyw ymatebion sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn yn gallu cael eu hystyried gan y Cyngor.

Ni chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyfri fel gwrthwynebiadau i'r ceisiadau, er eu bod yn cael eu hystyried gan y Cabinet wrth iddo wneud ei benderfyniad.

Dim ond yn dilyn cyhoeddi **Hysbysiad Statudol** y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

Gellir gofyn am unrhyw un o'r ymatebion a dderbynnir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid ei wneud yn gyhoeddus. Fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n dynodi pwy yw'r unigolyn, fel enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post, yn cael eu tynnu ymaith.

Eich enw: _____

Cyfeiriad: _____

Cod Post: _____

Cyfeiriad E-bost: _____

Dyddiad: _____

Rhowch wybod i ni a ydych yn ymateb fel:

	✓	Enw'r Ysgol Bresennol
1. Rhiant		
2. Disgybl		
3. Llywodraethwr		
4. Aelod o'r Staff		
5. Preswlydd lleol		
6. Arall (nodwch)		

CWESTIYNAU

1. Ydych chi'n cefnogi'r cais i gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre drwy gau Ysgol Feithrin Gurnos ac estyn ystod oedran Ysgol Gynradd Goetre i 3-11 oed o fis Medi 2018?

Ydw ☐

Na ☐

Os ydych chi'n cefnogi neu os nad ydych yn cefnogi'r cynnig, esboniwch pam.

2. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu awgrymiadau amgen i'r cynigion yna nodwch hwy isod.

3. Unrhyw sylwadau eraill

Dynodwch a ydych am gael eich hysbysu ynghylch cyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad.

Ydw ☐

Nac ydw ☐

NODER – Dychwelwch y ffurflen hon i'r cyfeiriad isod erbyn **dydd Iau 29 Mawrth 2018**

Prif Swyddog Addysg, Adran Ddysgu, Uned 5, Merthyr Tudful CF48 4TQ

NOTES

Nodiadau ar y Ddogfen Ymgynghorol

FFURFLEN MONITRO CYDRADDOLDEB

Beth yw'ch rhywedd?

- Benyw
- Gwryw

Pan gawsoch eich geni, a gawsoch eich disgrifio fel

- Benyw
- Gwryw
- Rhyngrywiol
- Gwell gen i beidio dweud

Anabledd

Ydi'ch gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi eu cyfyngu o ganlyniad i gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, salwch neu anabledd sydd wedi parhau neu a ddisgwylir i barhau am gyfnod o 12 mis neu fwy?

- Ydynt – wedi eu cyfyngu llawer
- Ydynt – wedi eu cyfyngu rhywfaint
- Nac ydynt
- Gwell gen i beidio dweud

Oed

Beth yw'ch dyddiad geni?

Cenedligrwydd

Sut fydddech yn disgrifio'ch cenedligrwydd?

• Cymreig

• Seisnig

• Albanaidd

• Gogledd Iwerddon

• Prydeinig

• Arall (nodwch)

• Gwell gen i beidio dweud

Grŵp Ethnig

Ethnigrwydd – sut fydddech yn disgrifio'ch grŵp ethnig? Rhowch gylch o amgylch eich ateb

Gwyn:

• Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig

• Gwyddelig

• Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

• Unrhyw gefndir gwyn arall (nodwch)

Grwpiau ethnig cymysg/lluosog:

• Gwyn a Caribïaidd Du

• Gwyn ac Affricanaidd Du

• Gwyn ac Asiaidd

• Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch)

Asiaidd/Asiaidd Prydeinig:

• Indiaidd

• Pacistan

• Bangladesh

• Tsieineaidd

• Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch)

Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Prydeinig Du:

• Affricanaidd

• Caribïaidd

• Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall (nodwch)

YSGOL FEITHRIN GURNOS SCHOOL
CYFARFOD YMGYNGHOROL Â CHYNGOR YR YSGOL
5 Chwefror 2018

YN GWEINYDDU: Mrs J Jones – Clerc i'r Llywodraethwyr
Mrs S Walker – Prif Swyddog Addysg
Mrs K Locke – Pennaeth Dros Dro
6 Disgyblion yn mynychu Ysgol Feithrin Gurnos

Ystyried y Cynnig i Gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre.

Diolchodd Mrs S Walker i'r disgyblion am fynychu'r cyfarfod heddiw a chafodd cyflwyniadau eu gwneud.

Esboniodd Mrs Walker mai diben y cyfarfod oedd trafod Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre yn cyfuno i greu ysgol newydd.

Gofynnwyd i'r plant feddwl am y ddwy ysgol yn dyfod yn un ysgol a chyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau am y cynnig. Ymatebodd y disgyblion i'r cwestiynau a gwneud y sylwadau canlynol:

C: Beth ydych chi'n ei hoffi am Ysgol Feithrin Gurnos?

Y: Rydym ni'n hoffi chwarae Lego, tywod, dŵr a'r gornel lyfrau.

C: Ydych chi'n meddwl y byddai gan yr ysgol newydd yr un pethau â'ch ysgol bresennol?

Y: Mae fy chwaer yn 8 oed ac nid yw hi'n chwarae gyda thywod.

C: Byddai gan yr ysgol gynradd yr un pethau ag Ysgol Feithrin Gurnos.

C: Oes brodyr /chwiorydd gennych yn Ysgol Gynradd Goetre ac ydyn nhw'n hoffi eu hysgol?

Y: Oes, mae gen i frawd ac mae e'n hoffi Ysgol Gynradd Goetre.

C: Ydych chi'n edrych ymlaen at fynd i'r ysgol fawr?

Y: Ydw, achos gallwn ni chwarae pêl-droed yn yr iard.

Nododd y Pennaeth Dros Dro fod yr holl ddisgyblion meithrin wedi mynd i'r ysgol fawr ar gyfer Cyngerdd Diolchgarwch sy'n rhan o bontio'r ysgol i'r cynradd.

C: Fyddech chi'n hapus pe byddai'r ddwy ysgol yn cyfuno i fod yn un ysgol gynradd o fis Medi 2018?

Y: Byddwn, mi fyddwn i'n hapus.

Diolchodd Mrs Walker i'r plant am eu holl sylwadau. Canodd y plant un o'u hoff ganeuon ar ddiwedd y cyfarfod: 'Dingly Dangly Scarecrow'.

YSGOL FEITHRIN GURNOS SCHOOL
CYFARFOD YMGYNGHOROL Â RHINI
5 Chwefror 2018

YN GWEINYDDU:

Mrs J Jones – Clerc i'r Llywodraethwyr
Mrs S Walker – Prif Swyddog Addysg
Mrs K Locke – Pennaeth Dros Dro
10 Rhieni o disgyblion yn mynychu Ysgol Feithrin Gurnos

Ystyried y Cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre

Croesawodd Mrs S Walker y rhieni i'r ysgol ac esbonio diben y cyfarfod a chafodd cyflwyniadau eu gwneud. Cadarnhaodd Mrs Walker fod rhieni wedi gweld y ddogfen ymgynghori gan fynd ati i amlinellu'r cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre. Nododd y rhieni mai'r cynnig yw estyn amrediad oedran Ysgol Gynradd Goetre i fod yn ysgol gynradd 3-11 a chau Ysgol Feithrin Gurnos o fis Medi 2018. Cyfeiriodd Mrs Walker y rhieni at dudalen 21 o'r ddogfen ymgynghori ac amlinellu graddfeydd amser ar gyfer y broses ymgynghori. Yna, dechreuwyd y cyfarfod i geisio cael safbwyntiau rhieni ac i rieni ofyn unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt am y cynnig.

Gofynnwyd y cwestiynau / sylwadau canlynol:

C: A fydd y cyfnod sylfaen yn parhau ar y cwricwlwm?

Y: Bydd, ni fydd unrhyw newidiadau i'r modd y caiff y cwricwlwm ei gyflenwi.

C: Beth am gefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion ag anghenion arbennig?

Y: Ni fydd unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth a byddai Pennaeth yr ysgol gynradd yn rheoli perfformiad disgyblion ac unrhyw gefnogaeth ychwanegol a allai fod yn ofynnol gan y disgyblion.

C: Fydd yr ysgol gynradd yn aros ar safle'r feithrinfa?

Y: Bydd, byddai'r adeilad yn aros ym mis Medi 2018, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud i newid y safle yn ystod y cam hwn.

C: Fydd y safle hwn yn cau?

Y: Na fydd, bydd y safle yn parhau ym mis Medi 2018, fodd bynnag, ni allaf warantu na fydd hwn yn newid yn y dyfodol.

C: Fydd y feithrinfa yn llawn amser neu'n rhan amser?

Y: Bydd hyn yn dibynnu ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Goetre, ar hyn o bryd ar draws yr ALL, mae'r rhan fwyaf yn cynnig lleoedd llawn amser.

C: Beth am y gwisgoedd, fyddan nhw'n aros yr un peth?

Y: Byddan nhw fwy na thebyg yn newid. Bydd y corff llywodraethu'n gweithio gyda rhieni am sut i reoli hyn a byddai cytundeb o ran pontio.

C: Beth fydd yn digwydd gyda'r safle hon yn y dyfodol?

Y: Ar hyn o bryd bydd y safle'n parhau. Mae gan Ysgol Feithrin Gurnos ddarpariaeth awyr agored ardderchog. Does dim penderfyniadau wedi bod o ran newid y safle cyfredol yn ystod y cam hwn.

C: Nododd y pennaeth y gallai rhieni lenwi'r holiadur ymgynghori ym more coffi rhieni ar 12 Chwefror 2018.

Diolchodd Mrs Walker i'r rhieni am fynychu'r cyfarfod heddiw a'u hatgoffa mai'r dyddiad cau ar gyfer dychwelyd holiaduron wedi eu cwblhau yw 29 Mawrth 2018.

YSGOL FEITHRIN GURNOS SCHOOL
CYFARFOD YMGYNGHOROL Â STAFF
5 Chwefror 2018

YN BRESENNOL:	Mrs G Estebanez – Adran AD Mr P Williams – Adran AD Mr M Crimmings – Unison, Cynrychiolydd yr Undeb Llafur Mr G Williams – Cynrychiolydd UCA 9 Aelod o'r Staff o Ysgol Feithrin Gurnos
YN GWEINYDDU:	Mrs J Jones – Clerc i'r Llywodraethwyr Mrs S Walker – Prif Swyddog Addysg

Ystyried y Cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre.

Croesawodd Mrs S Walker bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y swyddogion eu hunain. Cadarnhaodd Mrs Walker fod y staff wedi derbyn copi o'r ddogfen ymgynghori ac aeth ati i amlinellu'r cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre drwy:

- 1) Estyn amrediad oedran Ysgol Gynradd Goetre o 4-11 oed i 3-11 oed; a**
- 2) Cau Ysgol Feithrin Gurnos.**

Diben y cyfarfod hwn yw cynorthwyo'r broses ymgynghori i geisio cael safbwyntiau staff a darparu cyfle i staff ofyn cwestiynau neu wneud sylwadau mewn perthynas â'r cynnig fel y'i hamlinellir. Nododd aelod o'r staff y byddai Cynrychiolydd yr Undeb Llafur ar gael ar gyfer y staff ar ddiwedd y cyfarfod.

Nododd y staff y graddfeydd amser a amlinellir ar dudalen 32 a'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau i'r cynnig fydd 29 Mawrth 2018. Caiff y penderfyniad olaf ei wneud gan y Cabinet a'i gyhoeddi ar 27 Mehefin 2018.

Yna, cafodd y cyfarfod ei agor ar gyfer cwestiynau/ sylwadau:

C: Pryd fyddwn ni'n gwybod beth sy'n digwydd mewn perthynas i'n contractau?

Y: Bydd trafodaethau'n dechrau ym mis Ebrill os yw Cabinet yn cytuno i fynd ymlaen at yr hysbysiad statudol.

C: Mae'r staff wedi bod yma ers yn hirach na 2 flynedd, ydyn nhw'n barhaol?

Y: Ar ôl 2 flynedd, mae hawliau taliadau diswyddo gan y staff, ar ôl 4 blynedd mae staff yn barhaol.

C: Fydd yna ddiswyddiadau yn Ysgol Feithrin Gurnos?

Y: Bydd Corff Llywodraethau Ysgol Gynradd Goetre yn gweithio i bennu'r strwythur staffio a bydd yr ALL yn cefnogi'r pennaeth mewn perthynas â chyllideb / arian yr ysgol.

C: Fydd Ysgol Gynradd Goetre yn colli staff?

Y: Mae ystod oedran Ysgol Gynradd Goetre yn cael ei hestyn i fod yn ysgol 3-11 oed a'r cynnig yw cau'r ysgol feithrin. Bydd corff llywodraethu Ysgol Gynradd Goetre yn pennu'r strwythur staffio newydd ac ar yr adeg hon o'r flwyddyn byddai ysgolion yn adolygu eu staffio yn unol â'u dynodiad cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Ymunodd Mr G Williams, UCA â'r cyfarfod.

C: A fydd diswyddiadau arlwyo (ffreutur ysgol) yn sgil disgyblion meithrin yn rhan

amser?

Y: Does dim penderfyniad wedi ei wneud i newid darpariaeth llawn amser meithrin i ran amser.

Cyfeiriodd (SW) at dudalen 23 o'r ddogfen ymgynghori a amlygodd y rhagwelwyd y byddai'r staff meithrin yn cael eu hymgorffori yn yr ysgol gynradd newydd.

C: Faint o'r staff meithrin sy'n staff asiantaeth?

Y: Fel rhan o'r broses gosod cyllideb byddai'r ddwy ysgol yn adolygu staffio a byddai strwythur staffio diwygiedig gan yr ysgol gynradd newydd.

C: A fydd ein llywodraethwyr yn rhan o'r corff llywodraethu newydd?

Y: Bydd Ysgol Gynradd Goetre yn gwneud penderfyniad ynghylch cynyddu maint eu corff llywodraethwyr o 13 llywodraethwr i 17 llywodraethwr.

C: Beth am y Clwb Brecwast yn y feithrinfa?

Y: Mae'r cynnig i newid y clwb brecwast yn benderfyniad/proses ar wahân a bydd y Cabinet yn penderfynu ar hynny ar 7 Chwefror 2018.

C: Hysbysodd Swyddogion AD y staff, os oedd unrhyw gwestiynau ganddynt y gallant gysylltu ag AD neu eu Cynrychiolydd yr Undeb Llafur a thawelu meddwl y staff y byddai AD a'r Undebau Llafur yn gweithio'n agos at yr ysgolion i gefnogi'r broses.

C: Pa gyfarfodydd rhanddeiliaid eraill sydd wedi eu cynllunio i ddigwydd?

Y: Bydd cyfarfodydd yn digwydd gyda disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr o'r ddwy ysgol.

C: Beth am Ddarpariaeth Dechrau'n Deg?

Y: Cytunodd y Pennaeth i anfon copïau o'r ddogfen ymgynghori i staff Dechrau'n Deg er mwyn i staff a rhieni gwblhau'r holiadur.

C: A fydd yna gyfarfod arall gyda staff?

Y: Nid oes unrhyw gyfarfodydd eraill wedi eu cynllunio gyda staff fel rhan o'r broses hon, fodd bynnag, os fyddai angen cefnogaeth ar y staff gallant gysylltu ag AD yn uniongyrchol a bydd y Pennaeth yn hysbysu'r staff mewn perthynas â'r broses.

YSGOL FEITHRIN GURNOS SCHOOL
CYFARFOD YMGYNHOROL Â'R CORFF LLYWODRAETHU
5 Chwefror 2018

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs J Sullivan, Ms F Jones a Mrs C Minney.

Diben y Cyfarfod

Esboniodd Mrs Walker mai diben y cyfarfod oedd trafod y cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre o fis Medi 2018 drwy:

- 1) Estyn ystod oedran Ysgol Gynradd Goetre o 4-11 oed i 3-11 oed; a**
- 2) Cau Ysgol Feithrin Gurnos.**

Nododd y llywodraethwyr y cyfraddau amser ar dudalen 21 ac amlinellodd Mrs Walker ddyddiadau allweddol oddi fewn i'r broses ac agorodd y cyfarfod i'r llawr am unrhyw gwestiynau / sylwadau:

C: Beth fydd yn digwydd i staff dros dro?

Y: Caiff y strwythur staffio ar gyfer yr ysgol gynradd newydd 3-11 oed ei bennu gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Goetre a bydd yn cymryd i ystyriaeth gyllideb ddynodedig yr ysgol ar gyfer 2018/2019.

C: A fydd y feithrinfa ar y safle hwn?

Y: Bydd, bydd yr ysgol yn parhau ar y safle hwn ar gyfer mis Medi 2018. Yn y dyfodol caiff penderfyniadau eu gwneud mewn perthynas â Rhaglen Ysgolion yr 21 ganrif.

C: A yw rhieni / disgyblion Dechrau'n Deg wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad?

Y: Bydd y Pennaeth yn trefnu i sicrhau fod y lleoliad Dechrau'n Deg wedi derbyn copïau o'r ddogfen ymgynghori.

Diolchodd Mrs Walker i'r llywodraethwyr am eu presenoldeb gan ddweud y dylid dychwelyd holiaduron wedi eu cwblhau i'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol erbyn 29 Mawrth 2018.

YSGOL GYNRADD GOETRE
CYFARFOD YMGYNGHOROL Â'R CORFF LLYWODRAETHU
5 Chwefror 2018

YN BRESENNOL:

Dr A Naqvi

Mrs J Brill

Mrs N Naqvi

Mrs A Broadway

Mr L Shumack

YN GWEINYDDU:

Mrs J Jones – Clerc i'r Llywodraethwyr

Mrs S Walker – Prif Swyddog Addysg

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs K Pugh, Mr J McCarthy a'r Cynghorydd R Braithwaite.

Diben y Cyfarfod

Esboniodd Mrs Walker mai diben y cyfarfod oedd trafod y cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre o fis Medi 2018 drwy:

- 1) estyn ystod oedran Ysgol Gynradd Goetre o 4-11 oed i 3-11 oed; a**
- 2) chau Ysgol Feithrin Gurnos.**

Nododd y llywodraethwyr y cyfraddau amser ar dudalen 21 ac amlinellodd Mrs Walker ddysddiadau allweddol oddi fewn i'r broses ac agorodd y cyfarfod i'r llawr am unrhyw gwestiynau / sylwadau:

C: A oes yna unrhyw gostau ariannol i'r cynnig i gyfuno'r ddwy ysgol, hynny yw unrhyw newidiadau i rôl y pennaeth neu gostau staffio ychwanegol.

Y: Bydd strwythur yr ysgol gynradd newydd 3-11 oed yn cael ei bennu gan Gorff Llywodraethu Goetre, mae pennaeth cyfredol Ysgol Feithrin Gurnos wedi cael swydd arwain arall y tu allan i'r Awdurdod.

C: A fyddai hyn yn golygu y byddai rhywun o Ysgol Gynradd Goetre yn goruchwyllo'r feithrinfa?

Y: Byddai, byddai'r ysgol yn ymuno â chorff llywodraethu Goetre i bennu'r strwythur staffio a byddai'r pennaeth yn rheoli'r staff.

C: A fydd hyn yn golygu y bydd yna fwy o waith i'n Pennaeth?

Y: Ar hyn o bryd, hon yw'r unig ysgol gynradd ym Merthyr heb ysgol feithrin ac mae niferoedd y disgyblion yn gymharol ag ysgolion cynradd mawr eraill.

C: Beth am ddosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) a niferoedd disgyblion sy'n disgyn?

Y: Roedd gan Ysgol Gynradd Goetre 5 CAD sydd wedi disgyn i 3 CAD bellach.

C: Bydd gan Ysgol Gynradd Goetre 500 o ddisgyblion yn cynnwys ein Dosbarth CAD, a fydd grwpio yr ysgol yn newid?

Y: Mae Ysgol Gynradd Goetre yn ysgol gynradd fawr ond mae hon yn parhau i fod yn ysgol

grŵp 3. Mae'r ysgol wedi colli nifer o ddisgyblion ar gyfer y 2 ddosbarth CAD.

C: A fyddai'r cyfuno yn effeithio ar ein categoreiddiad Melyn?

Y: Edrychir ar categoreiddio drwy gydol y flwyddyn; fodd bynnag, ysgol Werdd yw Gurnos. Os yw ysgolion yn cytuno, caiff categoreiddio ei ystyried wrth ddatblygu fel ysgol gynradd 3-11 oed.

C: Gwnaeth y Pennaeth sylwadau y byddai'r cyfuno yn golygu y bydd angen i'r Corff Llywodraethu ystyried amrywiaeth o fodelau i symud yr ysgol yn ei blaen.

C: Daw'r raddfa safonau a gafodd ei chynnwys yn y ddogfen ymgynghori o'r llynedd ac nid yw mwyach wedi ei chynnwys yn y broses categoreiddio.

Y: Cafodd hyn ei newid gan Lywodraeth Cymru, ysgol Felen yw'r ysgol ar hyn o bryd.

C: A fydd yna gyfarfodydd gyda staff, rhieni a disgyblion?

Y: Bydd, mae yna gyfarfodydd â'r holl randdeiliaid, cyfeiriodd Mrs Walker y llywodraethwyr at dudalen 6 y ddogfen ymgynghori ar gyfer rhestr o'r holl gyfarfodydd.

C: Pwy sy'n penderfynu ar y strwythur staffio?

Y: Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Goetre yn pennu strwythur yr ysgol.

C: A fydd un Corff Llywodraethu?

Y: Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Goetre yn pennu maint y corff llywodraethu. Caiff ei argymhell i edrych ar hyn yn barod ar gyfer Medi 2018.

C: A fydd angen dirprwy Bennaeth ar yr ysgol yn y strwythur?

Y: Bydd angen i Gorff Llywodraethu Goetre adolygu'r strwythur staffio a chymryd cyngor AD priodol.

C: A fydd yna unrhyw symudiad o staff ar draws yr ysgol 3-11 newydd?

Y: Bydd, byddai hyn yn cael ei reoli gan y Pennaeth a'i adolygu'n flynyddol.

C: Mae ardal ddysgu awyr agored gan Ysgol Feithrin Gurnos mae angen sicrhau fod hon yn parhau.

Y: Nid oes unrhyw gynlluniau i newid hyn ar gyfer Medi 2018.

C: Felly beth fydd y newidiadau i'n hysgol?

Y: Y cynnig yw cau Ysgol Feithrin Gurnos ac estyn amrediad oedran Ysgol Gynradd Goetre i wneud ysgol gynradd newydd 3-11 oed.

C: Felly a fydd hyn yn golygu dim newid i'r staffio?

Y: Caiff y strwythur staffio ei bennu gan Ysgol Gynradd Goetre a bydd angen i lywodraethwyr edrych ar gyllidebau dynodedig yr ysgol a'r effeithlonrwydd mae ysgolion yn eu hwynebu ar gyfer 2018/2019 a 2019/2020.

C: A fydd yr ysgol feithrin yn ddarpariaeth lawn amser?

Y: Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn llawn amser a pheth yn rhan amser. Ar draws yr ALL mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig amrywiaeth o leoedd llawn amser a rhan amser. Mae lleoliad Gurnos yn cynnig digon o le ar gyfer lleoedd llawn amser.

C: Felly mae'r adeiladau'n parhau'r un peth, fydd y feithrinfa'n parhau ar safle Gurnos?

Y: Bydd, ni fydd newid ar gyfer Medi 2018, fodd bynnag, fe fydd trafodaeth mewn perthynas ag ysgolion 21 ganrif, gallai hyn newid yn y dyfodol.

C: Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn i ni fel ysgol gynradd ac rydym yn edrych ymlaen at fod yn ysgol gynradd 3-11 oed. Cafodd ei nodi y bydd y cyfarfod tymhorol nesaf yn cael ei gynnar ar 22 Mawrth 2018 am 3.30pm.

Diolchodd Mrs Walker i'r llywodraethwyr am eu presenoldeb a dywedodd y dylid dychwelyd holiaduron wedi eu cwblhau i'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol erbyn 29 Mawrth 2018.

YSGOL GYNRADD GOETRE
CYFARFOD YMGYNNGHOROL Â CHYNGOR YR YSGOL
6 Chwefror 2018

YN GWEINYDDU: Mrs E France – Clerc i'r Llywodraethwyr
Mrs S Walker – Prif Swyddog Addysg
Mrs J Brill – Pennaeth
Cyngor yr Ysgol

Ystyried y Cynnig i Gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre.

Gwnaeth y Cyngor Ysgol groesawu Mrs S Walker i'r cyfarfod a gwnaethant gyflwyno eu hunain.

Amlinellodd Mrs Walker yr adroddiad a'r broses ymgynghori.

Gofynnodd y disgyblion y cwestiynau canlynol:

C: Ble / ym mha ystafell ddosbarth fydd y feithrinfa ynddi?

Y: Nid ydym ni'n gwybod eto. Os yw'r Cyngor yn cymeradwyo'r ymgynghoriad, bydd yr ALL yn dod yn ôl at Mrs Brill i weld beth fydd yn gweithio orau. Gallai'r disgyblion meithrin aros ble mae'r feithrinfa ar hyn o bryd, ond byddai'r cyfan yn Ysgol Gynradd Goetre.

C: Beth fydd y feithrinfa yn ei wneud?

Y: Dysgu, ond mewn modd gwahanol. Dim eistedd lawr wrth fwrdd, ond gyda thywod dŵr a lego.

C: Beth am y neuadd yn ystod amser cinio a'r gwasanaeth? Oes lle i bawb?

Mae neuadd wahanol gennym ar gyfer amser cinio. Rydym yn cael gwasanaeth arbennig ble mae lle i bawb.

Y: Bydd yn parhau fel y mae; efallai'n gyfyng o ran lle, ond rwy'n siŵr y bydd pawb yn gallu ffitio fewn.

C: A fyddwn ni i gyd yn chwarae ar yr un iard?

Y: Os fydd Meithrin yn aros ar y safle presennol, bydd disgyblion Meithrin yn chwarae yno, a bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gallu mynd i'r feithrinfa gan fod offer ardderchog yno. Os yw'r Meithrin yn symud i fyny, yna byddai ganddynt ardal ar iard y Cyfnod Sylfaen.

C: Beth fyddai'n digwydd pe byddem yn chwarae pêl-droed ar un ohonynt?

Y: Ni fyddai hyn ar iard Cyfnod Allweddol 2 a byddai ganddynt eu hardal eu hunain ar yr iard Sylfaen.

C: Faint o ddosbarthiadau?

Y: Byddai hynny'n dibynnu ar faint o ddisgyblion.

C: Pa athrawon fyddai ym Meithrin?

Y: Penderfyniad Mrs Brill a'r Corff Llywodraethu fyddai hynny.

C: Sawl iard fydd eu hangen arnom?

Y: Ni allwn adeiladu iardiau ychwanegol, felly mae angen i ni weithio gyda'r hyn sydd gennym.

C: Sawl disgybl sydd yn yr ysgol?

Y: 60 disgybl ym Meithrin. Ceir cyfanswm o 424 disgybl yn yr Ysgol Feithrin, felly byddai'n

un o'r ysgolion cynradd mwyaf ym Merthyr.

C: Beth fydd enw'r ysgol?

Y: Ysgol Gynradd Goetre.

C: Fyddem ni'n newid y wisg?

Y: Penderfyniad yr ysgol fyddai hynny.

C: Allwn ni gael gwisgoeddd o wahanol liwiau?

Y: Byddem ni am i'r holl ddisgyblion deimlo eu bod yn perthyn i un ysgol felly byddi'n well pe byddai pawb yr un peth.

C: Allwn ni wisgo tei?

Y: Mae hyn yn rhywbeth i Gyngor yr Ysgol siarad amdano.

C: Mae angen mwy o offer awyr agored ar fabanod, allwn ni rannu?

Y: Gallwch, mae'r holl offer i'w rannu os yw'n addas.

C: Dim ond un dosbarth TGCh sydd, beth os nad oes digon o gyfrifiaduron?

C: Ydy'r holl ddisgyblion yn rhannu Ystafell TGCh ar hyn o bryd?

Y: Ydyn.

Y: Yna byddai'r un peth yn digwydd, byddai pob dosbarth yn cael amser i ddefnyddio'r ystafell TGCh.

C: Beth sy'n digwydd nawr?

Y: Mae angen i chi ofyn i'ch rhieni lenwi ffurflen ymgynghori. Byddwn yn ysgrifennu adroddiad yn seiliedig ar safbwyntiau pawb yr ydym yn siarad â nhw a rhoi'r adroddiad hwnnw i'r Cyngor. Gall Cyngor yr Ysgol lenwi ffurflen hefyd a'i rhoi i Mrs Brill.

Diolchodd Mrs Walker i'r disgyblion am gwrdd â hi.

YSGOL GYNRADD GOETRE
CYFARFOD YMGYNNGHOROL Â STAFF
6 Chwefror 2018

YN BRESENNOL:

Mrs G Estebanez – Adran AD
Mr P Williams – Adran AD
Mr M Crimmings – Unison, Cynrychiolydd yr Undeb Llafur
Mrs P Phillips – GMB, Cynrychiolydd yr Undeb Llafur
Mr G Williams – Cynrychiolydd UCA
Aelod o'r Staff

YN GWEINYDDU:

Mrs E France – Clerc i'r Llywodraethwyr
Mrs S Walker – Prif Swyddog Addysg

Ystyried y Cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre.

Croesawodd Mrs S Walker bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y swyddogion eu hunain. Diolchodd Mrs Walker i gynrychiolwyr yr undeb am eu presenoldeb. Pe byddai unrhyw aelod o staff am siarad â chynrychiolwyr yr undeb yna byddent ar gael ar ddiwedd y cyfarfod.

Cadarnhaodd Mrs Walker fod y staff wedi derbyn copi o'r ddogfen ymgynghori ac aeth ati i amlinellu'r cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre drwy:

- 1) estyn amrediad oedran Ysgol Gynradd Goetre o 4-11 oed i 3-11 oed; a**
- 2) chau Ysgol Feithrin Gurnos.**

Nododd y staff y graddfeydd amser a amlinellir ar dudalen 32 a'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau i'r cynnig fydd 29 Mawrth 2018. Caiff y penderfyniad olaf ei wneud gan y Cabinet a'i gyhoeddi ar 27 Mehefin 2018.

Gofynnodd Mrs Walker i bawb a oedd yn bresennol am unrhyw gwestiynau / unrhyw bryderon.

Gofynnodd Mike Crimmings, Cynrychiolydd Undeb, y cwestiynau canlynol:

C: A fydd yn effeithio ar niferoedd staffio?

Y: Bydd Emma France a Jayne Jones yn cwrdd â Mrs Brill i edrych ar niferoedd disgyblion, strwythur staffio a chyllidebau.

C: A fydd yr adeilad Meithrin yn cau?

Y: Dim penderfyniad eto. Mae swm mawr iawn o arian wedi cael ei wario ar ddarpariaeth awyr agored ar y safle Feithrin. Byddai angen i ni wario arian ar y safle Cynradd. Anelu at hyn i ddigwydd erbyn Medi 2018, mae hyn yn golygu bod cyfraddau amser ac ariannu yn ein herbyn. Byddai'r Cyfnod Sylfaen yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth yn y safle Meithrin.

C: A fyddai yna ddau Gorff Llywodraethu?

Y: Na, un Corff Llywodraethu, Corff Llywodraethu'r ysgol gynradd. Byddem yn argymhell

newid offeryn llywodraethu o 13 llywodraethwr i 17 llywodraethwr, a fyddai'n galluogi'r ysgol gynradd i gynnig lleoedd llywodraethu meithrin i'r ysgol gynradd.

Pryderon plant am ddarpariaeth iard a gwisg, na welir yn y ddwy ysgol ar wahân. Byddai'r Uwch Dîm Reoli yn gweithio i sicrhau fod yr ysgol gyfan yn cael ei hystyried gan bawb i fod yn un ysgol.

Gofynnodd y staff y cwestiynau canlynol:

C: A fyddai arian ar gael ar gyfer gwaith adeiladu ar safle'r Cyfnod Sylfaen?

Y: Does dim arian wedi ei ymrwymo. Mae'r adeilad Meithrin mewn cyflwr da.

C: Beth fyddai'n digwydd gyda chategoreiddio?

Y: Gwyrdd yw Ysgol Feithrin Gurnos, mae Ysgol Gynradd Goetre yn Felyn. Ysgolion i'w categoreiddio yr un peth â'r blynyddoedd blaenorol yn ystod Tymor yr Hydref ond fel ysgol 3-11 oed.

Gofynnodd yr Undebau y canlynol:

C: Pryd fydd gennym fynediad at restr o staff parhaol, tymor penodol ac asiantaeth?

Y: Bydd ar gael erbyn diwedd yr wythnos.

C: Oes yna siawns y bydd diswyddiadau?

Y: Caiff strwythur staffio ei ystyried yn unol â gofynion yr ysgol.

Diolchodd Mrs Walker i bawb a oedd yn bresennol am fynychu a'u hannog i lenwi'r ddogfen ymgynghori ar y wefan.

YSGOL GYNRADD GOETRE
CYFARFOD YMGYNGHOROL Â RHINI
6 Chwefror 2018

YN GWEINYDDU: Mrs E France – Clerc i'r Llywodraethwyr
Mrs S Walker – Prif Swyddog Addysg
Mrs J Brill –Pennaeth

Ystyried y cais i gyfuno Ysgol Feithrin Gurnos ac Ysgol Gynradd Goetre.

Caiff y rhieni eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod am 4pm.

Ni fynychodd unrhyw rieni; byddai'r ysgol yn gofyn i rieni lenwi'r ddogfen ymgynghori.

Crynodebau o ymatebion yr holiadur ac unrhyw ohebiaeth arall a dderbyniwyd

- **A fydd safle'r ysgol feithrin yn parhau ar agor** – *y bwriad yw parhau i ddefnyddio'r safle am y dyfodol agos.*
- **A fydd y wisg Meithrin yn newid?** – yn dilyn trafodaeth â'r pennaeth cynradd cytunwyd y gallai'r plant Meithrin gadw eu gwisg gyfredol nes iddynt dyfu allan ohonynt ac yna brynu gwisg *Ysgol Gynradd Goetre*.
- **A fydd y ddarpariaeth Feithrin yn llawn amser neu'n rhan amser?** – penderfyniad i'r Corff Llywodraethu fydd hwn.